Gwasanaeth Arian a Phensiynau | Money & Pensions Service

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Strategaeth y DU ar gyfer Lles Ariannol

Adroddiad Cynnydd Haf 2024 (Cymru)

Strategaeth y DU ar gyfer Lles Ariannol

- Credwn fod cenedl sy'n iach yn ariannol yn dda i unigolion, cymunedau, busnesau a'r economi.
- Ein gweledigaeth: Pawb yn gwneud y gorau o'u harian a'u pensiynau
- Ein Agendau ar gyfer Newid a rennir yw'r pum ffordd y byddwn yn ysgogi newid ar raddfa fawr, gan weithio gyda ac annog sefydliadau eraill ar draws pum piler allweddol: Sylfeini Ariannol, Cenedl o Gynilwyr, Credyd yn Cyfrif, Gwell Cyngor ar Ddyled a Ffocws ar y Dyfodol.



Cynllun Cyflenwi Cymru: adroddiad cynnydd

- Cyhoeddwyd Cynllun Cyflenwi Cymru ym mis Mawrth 2022.
- Mae'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer MaPS, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid i ganolbwyntio arnynt yng Nghymru; a'r 34 o weithgareddau sy'n cael eu cynnal i fodloni'r blaenoriaethau hynny dros y 24-36 mis nesaf.
- Ar y sleidiau canlynol, rydym yn darparu gwybodaeth am gynnydd y mentrau hyn hyd at a chan gynnwys haf 2024.
- Rydym hefyd wedi dechrau casglu'r holl waith sy'n digwydd ledled Cymru sy'n helpu i wneud cynnydd tuag at y Nodau Cenedlaethol.

- Os ydych yn:

  a) ymwneud â phrosiectau neu raglenni sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at y Nodau Cenedlaethol, ac

  b) y byddech yn hapus i ni gynnwys diweddariadau ar y mentrau hynny mewn iteriadau o'r adroddiad cynnydd hwn yn y dyfodol, **rhowch wybod i ni**.

Draft

Mae'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS) wedi cymryd pob gofal rhesymol wrth baratoi'r cyhoeddiad hwn. Nid yw MaPS yn gwneud unrhyw gynrychiolaeth (datganedig neu ymhlyg) mewn perthynas â chywirdeb yr wybodaeth gefndirol a gynhwysir yn y cyhoeddiad hwn sy'n ymwneud â rhanddeiliaid allanol a'r wybodaeth ar eu gwefannau, sy'n gysylltiedig â'r cyhoeddiad hwn. Nid yw MaPS yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb cyfreithiol nac atebolrwydd o gwbl am unrhyw wallau neu hepgoriadau yng nghyhoeddiadau a / neu wefannau y rhanddeiliaid allanol ac mae atebolrwydd wedi'i eithrio i'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith. Nid yw cynnwys gwybodaeth allanol am randdeiliaid yn y cyhoeddiad hwn yn gyfystyr â chymeradwyo rhanddeiliaid allanol o'r fath (na'r fenter gan MaPS) ac nid oes gan MaPS unrhyw reolaeth dros gynnwys y gwefannau a/neu'r cyhoeddiadau hynny. Pwrpas y cyhoeddiad hwn yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac ni ddylid dehongli cynnwys dolenni i wefannau rhanddeiliaid allanol fel cymeradwyaeth neu ardystiad gan MaPS o'r gwefannau hynny (neu'r wybodaeth a gynhwysir ynddynt).

Mentrau Cynllun Cyflenwi Cymru: adroddiad cynnydd (Haf 2024)

Menter	Deilliannau Allweddol	Partneriaid	Sylwebaeth
Sgiliau Ariannol Hanfodol	1. Sicrhau pwyntiau cyffwrdd allweddol i bobl ifanc drwy raglenni a gefnogir gan y llywodraeth yn cynnwys rhyw fath o sgiliau rheoli arian.	Llywodraeth Cymru, Darparwyr Hyfforddiant a MaPS	Rhoddodd y peilot 'Basic Income for Care Leavers in Wales' y cyfle i ofalwyr oedd yn gadael gofal a'n troi'n 18 rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023 gyfle i dderbyn £1,600 (cyn treth) y mis am gyfnod o 24 mis. Yn ystod y cyfnod cofrestru o 12 mis, a ddaeth i ben yn ffurfiol ar 30 Mehefin 2023, roedd 635 o bobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru wedi ymuno â'r peilot. Cynigiwyd arweiniad a chyngor ariannol i bob person ifanc gan 'Cyngor ar Bopeth Cymru' a ariannwyd drwy'r Gronfa Gynghori Sengl. Mae arweiniad anstatudol gan Lywodraeth Cymru wedi'u cynllunio i gefnogi derbynwyr wrth iddynt bontio allan o'r cynllun peilot. Ymrwymiad allweddol Llywodraeth Cymru yw'r Warant i Bobl Ifanc (YPG) i ddarparu cymorth i bawb rhwng 16 a 24 oed sy'n byw yng Nghymru, i ennill lle mewn addysg neu hyfforddiant, helpu i gael gwaith neu hunangyflogaeth. Mae'r YPG yn treialu arweiniad ariannol e-ddysgu MaPS gyda grŵp bach i ddeall sut y gall helpu ymarferwyr i gefnogi lles ariannol pobl ifanc sy'n gysylltiedig â rhaglenni cyflogadwyedd a sgiliau. Ers dechrau Twf Swyddi Cymru a Mwy ym mis Ebrill 2022 hyd at ddiwedd Rhagfyr 2023, roedd 9,635 o raglenni wedi dechrau gan bobl ifanc. Byddai pob un wedi llenwi holiadur ar ddechrau'r rhaglen sy'n cynnwys cwestiynau am eu lles ariannol. Defnyddir y rhain i deilwra cymorth addysg ariannol ar gyfer pob person ifanc.
Cynllun Cynilwyr Ysgol	1. Cynyddu'r nifer o blant oedran ysgol sy'n cynilo yn rheolaidd. 2. Hyrwyddo manteision cynlluniau cynilo ysgolion a sesiynau sgiliau arian.	Llywodraeth Cymru, Undebau Credyd ac Ysgolion	**Mae Stop Loan Sharks Wales** wedi bod yn gweithio gyda Smart Money Community Bank i helpu i hyrwyddo ac annog cynilwyr newydd. Cofrestrodd diwrnod hwyl cymunedol ym mis Gorffennaf 11 aelod newydd. Yn ystod digwyddiad tebyg yn Ysgol Trefonnen, Llandrindod, ymunodd saith aelod newydd ychwanegol.
Llyfr testun Mae'ch Arian o Bwys (Cymru) Llyfr testun addysg ariannol a anfonwyd i bob ysgol uwchradd ar draws Cymru	1. Cynyddu ymwybyddiaeth ariannol pobl ifanc. 2. Cynyddu'r defnydd o addysg ariannol yn ysgolion Cymru.	Arian Ifanc, MaPS, Addysgwyr ac Addysg/STEM Llywodraeth Cymru	Rhannwyd y gwerslyfr gyda CBAC (Cyd-bwyllgor Addysg Cymru) yn dilyn cyhoeddi'r amlinelliadau cymhwyster terfynol ar gyfer y TGAU Mathemateg a Rhifedd (Gwobr Ddwbl). Mae'r TGAU yn ymgorffori addysg ariannol fel elfen hanfodol, gyda'r dysgu cyntaf o fis Medi 2025. **Uned 1.** Bydd Mathemateg Ariannol a Chymwysiadau Eraill o Rifedd, yn cyflwyno ac yn datblygu dealltwriaeth dysgwyr o bynciau a chysyniadau sy'n ymwneud â chyllid ac i gefnogi hyder dysgwyr mewn perthynas â lles ariannol.

Mentrau Cynllun Cyflenwi Cymru: adroddiad cynnydd (Haf 2024)

Menter	Deilliannau Allweddol	Partneriaid	Sylwebaeth
Digideiddio Siarad Dysgu Gwneud (TLD) Addasu TLD i roi mynediad i rieni, gofalwyr ac ymarferwyr at gynnwys digidol, bach sy'n eu cynorthwyo i ddysgu plant am arian.	1. Digideiddio cynnwys presennol. Mwy o gynnwys i rieni ac ymarferwyr. 2. Mwy o ddefnydd ac effaith TLD ar rieni ac ymarferwyr.	FinEd, Magu Plant, Sectorau gwasanaethau ariannol	Ar ôl lansio cynnwys Siarad, Dysgu, Gwneud wedi'i ysbrydoli gan Helpwr Arian ym mis Medi 2023, gwnaeth MaPS gynnal dwy rownd o brofion defnyddwyr i werthuso a yw'n gweithio fel y bwriadwyd. Dangosodd y profion oedd yn cynnwys rhieni a gofalwyr fod y cynnwys yn llwyddo i'w denu, cynnwys 'blas ar ddysgu' ac awgrymiadau defnyddiol ar gyfer gweithgareddau. Bydd diweddariadau pellach yn cael eu gwneud dros amser. https://www.moneyhelper.org.uk/cy/family-and-care/talk-money/talk-learn-do
Ehangu TLD i Arddegwyr Caiff TLD ei ehangu i gynnwys cynnwys i rieni/gofalwyr arddegwyr a phobl ifanc i'w helpu i addysgu eu plant am arian.	1. Creu cynnwys TLD i arddegwyr. 2. Ehangu cynulleidfa cynnwys TLD.	FinEd, Magu Plant, Sectorau gwasanaethau ariannol	Defnyddiodd MaPs y fenter digidol Siarad Dysgu Gwneud i brofi a yw cynnwys digidol yn diwallu anghenion rhieni/gofalwyr sy'n dymuno darparu addysg ariannol i'w plant. Mae MaPS wedi canfod bod y fenter hon yn llwyddo i gyrraedd rhieni plant ifanc (3-11) ac mae MaPS yn credu y gellir cymhwyso'r dull hwn nawr i rieni sydd â phlant ychydig yn hŷn (hyd at 13 oed). Bydd ymchwil bellach yn cael ei wneud ar y dull gorau o gyrraedd a diwallu anghenion rhieni/gofalwyr sydd â phlant 14–18 oed a phlant 19–24 oed.
Ehangu a graddio hyfforddiant athrawon ledled y DU o hydref 2023 i gynnwys cymorth arall i athrawon yng Nghymru. Mae addysg ariannol o safon yn yr ysgol yn allweddol i gyflawni'r nod cenedlaethol.	1. Cynyddu hyfforddiant i athrawon ar draws y DU.	yr Adran Addysg; FinEd a sectorau gwasanaethau ariannol; Addysg Cymru; CCEA	Wedi'i lansio yn Fforwm Addysg Ariannol Cymru, mae Llywodraeth Cymru a MaPS wedi cydweithio i ddatblygu adnoddau addysg ariannol newydd i ysgolion yng Nghymru. Wedi'i anelu at dimau arweinyddiaeth ysgolion, mae'r deunydd cefnogi addysg ariannol yn archwilio sut mae dysgu am arian yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, yn amlinellu'r camau y gall ysgolion eu cymryd i wella a gwella eu darpariaeth ac yn tynnu sylw at y gwasanaethau a'r adnoddau y gall ysgolion eu defnyddio i'w cefnogi. Mae cymorth ymarferol ychwanegol i helpu athrawon i gyflwyno yn yr ystafell ddosbarth ar gael drwy becyn cymorth addysg ariannol newydd Llywodraeth Cymru, gyda dolenni i rannau perthnasol o'r Cwricwlwm i Gymru ac yn cyfeirio at adnoddau sy'n berthnasol i lythrennedd ariannol. Darganfyddwch fwy am y deunydd cefnogi addysg ariannol Darganfyddwch fwy am y pecyn cymorth addysg ariannol https://e-learning.y-e.org.uk/ Mae'r cwrs dysgu proffesiynol e-ddysgu am ddim ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm presennol a newydd i Gymru. Hefyd, mae'r adnodd Mapio Arian dwyieithog am ddim yn cynnwys dysgwyr (9-12 oed) mewn gallu ariannol gan ddefnyddio cyd-destunau bywyd go iawn a pherthnasol a gellir ei ddefnyddio i annog sgiliau ymchwilio a datrys problemau, gan ddarparu cyfleoedd trafod sy'n ymwneud â nifer o themâu ariannol, megis gwneud dewisiadau, agweddau, gwerth am arian a risg. Mae MaPS wedi cwblhau cam cyflwyno'r rhaglen grant hyfforddi athrawon ar addysg ariannol a oedd yn gweithredu yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon, oedd yn adeiladu ar ymchwil gynharach MaPS a gynhaliwyd yng Nghymru. Ers hynny, mae MaPS wedi cynnal gweithdy gyda grantïon i drafod canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg. Ar hyn o bryd mae MaPS yn ysgrifennu adroddiad ac yn datblygu cynllun lledaenu felly mae'r canfyddiadau'n llywio polisi ac ymarfer ym mhob un o bedair gwlad y DU. Bydd yr adroddiad gwerthuso terfynol yn barod erbyn Hydref 2024 ac mae MaPS yn cynllunio digwyddiad i rannu canfyddiadau â rhanddeiliaid allweddol.

Mentrau Cynllun Cyflenwi Cymru: adroddiad cynnydd (Haf 2024)

Menter	Deilliannau Allweddol	Partneriaid	Sylwebaeth
Cymorth i ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant agored i niwed	1. Cynyddu cynnwys ar gyfer cymorth i ymarferwyr. 2. Cynyddu cyrhaeddiad a mynediad at gymorth i ymarferwyr.	yr Adran Addysg; Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, sector FinEd; gwasanaethau gofal cymdeithasol	Mae MaPS wedi cwblhau cam cyflwyno'r rhaglen grant hyfforddiant a chymorth i ymarferwyr a oedd yn cwmpasu'r Alban, Gogledd Iwerddon, Cymru a Lloegr. Ers hynny, mae MaPS wedi cynnal gweithdy gyda grantïon i drafod canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg. https://maps.org.uk/2023/03/07/improving-children-and-young-peoples-financial-wellbeing-seven-projects-for-teachers-and-vulnerable-children/ Ar hyn o bryd mae MaPS yn ysgrifennu adroddiad ac yn datblygu cynllun lledaenu fel bod y canfyddiadau'n llywio polisi ac ymarfer ym mhob un o bedair gwlad y DU. Bydd yr adroddiad gwerthuso terfynol yn barod erbyn hydref 2024 pan fydd MaPS yn cynllunio digwyddiad i rannu canfyddiadau â rhanddeiliaid allweddol.
Gweithgareddau eraill ar draws y sector	1. Cyfraniadau i fwy o blant a phobl ifanc yng Nghymru sy'n derbyn addysg ariannol ystyrlon.	Y sector cyfan	**Cymdeithas Adeiladu'r Principality** • Wedi dechrau partneriaeth newydd gyda 2B Enterprising ym mis Chwefror 2024 a fydd yn darparu cyllid ar gyfer cyflwyno 450+ o wersi mewn ysgolion cynradd ledled Cymru (y mwyafrif ohonynt wedi'u dewis mewn ardaloedd o amddifadedd uchel) o 2024-2026. Ers ei lansio a hyd at ddiwedd Mehefin 2024, mae 69 o wersi ysgol wedi'u cwblhau yn cynnwys **2038** o ddisgyblion. • Mae noddi Young Enterprise Fiver Challenge wedi parhau trwy 2024 ac (ers 26 Mehefin) **roedd 1813** o ddisgyblion yng Nghymru wedi cofrestru i gymryd rhan o 45 o ysgolion cynradd. Ar gyfer Lloegr cofrestrodd 18,855 o ddisgyblion o 393 o ysgolion. • Fel rhan o'n partneriaeth elusennol barhaus gyda Hope House Ty Gobaith yng Ngogledd Cymru, rydym unwaith eto wedi noddi her fenter Dragon's Lair ar gyfer myfyrwyr ysgolion uwchradd. **Cymerodd 1698** o fyfyrwyr ran yn ystod y flwyddyn academaidd 2023/24. **Ymchwil** Mae Arolwg Lles Ariannol Plant a Phobl Ifanc 2022 yn ffynhonnell bwysig o fewnwelediad ynghylch lles ariannol plant a phobl ifanc fel y mae ar hyn o bryd. https://maps.org.uk/cy/publications/research/2023/uk-children-and-young-peoples-financial-wellbeing-survey-financial-foundations Mae'r adolygiad hwn o dystiolaeth, sy'n adeiladu ar adolygiad cynharach yn 2018, yn gwella dealltwriaeth MaPS o dystiolaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar ym maes gallu ariannol plant a phobl ifanc. Mae'n cynnwys 51 o astudiaethau newydd a gafodd eu categoreiddio a'u cyfuno i mewn i fap tystiolaeth wedi'i ddiweddaru https://maps.org.uk/cy/publications/research/2023/developing-children-young-people-financial-capability

Mentrau Cynllun Cyflenwi Cymru: adroddiad cynnydd (Haf 2024)

Menter	Deilliannau Allweddol	Partneriaid	Sylwebaeth
Hyrwyddo cynlluniau cynilo cyflogres optio i mewn a datblygu achos dros ddewisiadau amgen Annog cynnydd sylweddol yn y nifer sy'n manteisio ar gynlluniau cynilo cyflogres optio i mewn yn wirfoddol, a threialu ac adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynlluniau optio allan.	1. Cynyddu argaeledd cynlluniau cynilo cyflogres i weithwyr. 2. Mwy o ddefnydd o gynlluniau cynilo cyflogres.	Llywodraeth Cymru, MaPS, DWP, HMT, BSA, ABCUL, BlackRock, JP Morgan, Undebau Credyd, Atal Siarcod Benthyg Arian Cymru	**Mae cyllid Llywodraeth Cymru** yn parhau i gefnogi Moneyworks Wales, cydweithrediad o chwe undeb credyd (Cambrian, Celtic, Dragonsavers, Merthyr Tudful, Gateway ac SaveEasy) sy'n gweithio i gynyddu nifer y cyflogwyr sy'n cynnig cynilion cyflogres i'w gweithwyr. Mae chwe sefydliad arall wedi'u sicrhau fel partneriaid cyflogres yn ystod 2023/24. Mae mwy na 180 o sefydliadau bellach yn cynnig cynilion cyflogres fel hyn, gyda mwy na 50 o fentoriaid yn gweithio mewn sefydliadau fel hyrwyddwyr. **Mae Nest Insight** yn parhau i gyhoeddi adroddiadau cymhellol ar fanteision cynlluniau optio allan cynilo cyflogres (a elwir yn "autosave". Mae hyn yn wahanol i fodelau optio i mewn o gynilion cyflogres sydd â lefelau llawer is o ymgysylltu â gweithwyr.) Gellir dod o hyd i'r adroddiadau Nest Insights yma: https://www.nestinsight.org.uk/research-projects/workplace-emergency-savings/opt-out-payroll-savings-trial/ Yn dilyn etholiad cyffredinol 2024 bydd **MaPS** yn parhau i roi cyhoeddusrwydd i 'autosave' mewn uwchgynadleddau cynhwysiant ariannol a chynilo ar draws pedair gwlad y DU gyda'n gweithgaredd Partner parhaol.
Sector Gwasanaethau Ariannol i gyd-greu siarter cynilo drafft i annog cynilo rheolaidd	1. Creu siarter cynilo ar gyfer cynilo rheolaidd. 2. Cynyddu cynilwyr rheolaidd.	Sector Gwasanaethau Ariannol, MaPS	Mae'r Siarter Cynilo gyda'i phum ymrwymiad wedi'i dargedu at ddarparwyr cynilo bellach yn fyw ar maps.org.uk. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i hyrwyddo'r siarter ar draws pedair gwlad y DU. https://maps.org.uk/cy/work-with-us/sign-the-savings-charter **Cymdeithas Adeiladu'r Principality:** Lansiwyd ymgyrch farchnata cynilo newydd ym mis Mai i annog pobl i newid i gyfrifon llog gwell Mae mwy o wybodaeth am gynilwyr Cymru yn colli allan gan fod dros £14bn yn eistedd mewn cyfrifon sy'n ennill 1% neu lai (principality.co.uk)
Cynyddu'r nifer o bobl sy'n manteisio ar Help to Save a sicrhau bod defnyddwyr yn deall eu dewisiadau cynilo unwaith y bydd eu cyfrif yn aeddfedu	1. Mwy o bobl yn manteisio ar Help to Save. 2. Gwell dealltwriaeth o ddewisiadau cynilo ar gyfer defnyddwyr Help to Save.	HMT, HMRC, MaPS	Mae ymgynghoriad **Trysorlys EF** ar yr hyn sy'n disodli'r cynllun Cymorth i Gynilo pan ddaw'r un presennol i ben ym mis Ebrill 2025 wedi'i ohirio oherwydd etholiad cyffredinol 2024. Mae cystadleuaeth tynnu gwobr 12 mis **Stop Loan Sharks Wales ac Moneyworks Wales** wedi dod i ben. Cafodd pob aelod newydd ei gynnwys mewn raffl fisol, gyda 13 enillydd yr un yn derbyn £150. Cyfrannodd y wobr at: • Cyfanswm yr aelodau sy'n defnyddio didyniad cyflogres trwy Waith Arian Cymru yn tyfu o **6,024** i **6,250** - cynnydd o **226** aelod neu **3.75 %.** • Aelodau a gynilodd drwy Waith Arian Cymru gan dyfu o **5,863** i **6,108** - cynnydd o **245** cynilwr neu **4.17%**

Mentrau Cynllun Cyflenwi Cymru: adroddiad cynnydd (Haf 2024)

Menter	Deilliannau Allweddol	Partneriaid	Sylwebaeth
Cyrchu Credyd Fforddiadwy	1. Buddsoddi mewn undebau credyd i gefnogi twf, aelodaeth, benthyca, a lle bo angen, dyled israddol.	Llywodraeth Cymru, Undebau Credyd Atal Siarcod Benthyg Arian Cymru	**Trefnodd Stop Loan Sharks Wales ac Undeb Credyd Cambrian** ddigwyddiad ar y cyd ar gyfer ardal Parc Caia, Wrecsam, cymuned gydag amheuaeth o weithgarwch siarcod benthyg uchel. Gwahoddwyd preswylwyr i ddigwyddiad ymgynghori a fydd yn siapio hwb undeb credyd newydd ar gyfer y gymuned. Mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Yn ogystal ag annog atgyfeiriadau at fenthycwyr cymunedol moesegol a chefnogi cydweithio â sefydliadau cymorthwyol eraill, drwy Gyfarfodydd Benthycwyr Cyfrifol Llywodraeth Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi yn y sector undebau credyd. Mae'r £1.2 miliwn a ddarparwyd yn 2021/22 ar gyfer gwarantu benthyciadau i bobl sydd â hanesion credyd gwael yn parhau i gael ei ailgylchu i 2024/25, gan ganiatáu i fenthycwyr mwy peryglus fenthyca gan undeb credyd. Hyd yn hyn mae mwy na 3000 o fenthyciadau wedi'u cefnogi drwy'r prosiect hwn.
Benthyca Arian yn Anghyfreithlon (Cymru) Helpu pobl i osgoi defnyddiol, ac ymdopi â chanlyniadau, benthyca arian yn anghyfreithlon	1. Lleihau'r nifer o bobl sy'n defnyddio benthyca arian yn anghyfreithlon. 2. Cynyddu ymwybyddiaeth o'r pwnc hwn.	Atal Siarcod Benthyg Arian Cymru	Yn dilyn erlyniad siarc benthyciad o Gasnewydd yn llwyddiannus, gwelodd Gwrandawiad Enillion Trosedd y benthyciwr anghyfreithlon yn cael ei orchymyn i dalu £173,195.92 gyda chostau ychwanegol o £12,000, gyda chyfanswm o £35,258 i'w dalu fel iawndal i ddioddefwyr. Mae gan SLSW 11 ymchwiliad agored i fenthyca arian anghyfreithlon ledled Cymru. Mewn ymateb i wybodaeth sy'n awgrymu gweithgarwch benthyca arian anghyfreithlon hirdymor yn ardal Cefn Golau (Blaenau Gwent), gyda chefnogaeth yr Hwb Dechrau'n Deg lleol, treuliodd y Tîm ddau ddiwrnod yn curo ar bob drws yn y gymuned a dosbarthu taflenni. Cadarnhaodd nifer o'r trigolion y cudd-wybodaeth. Cynhaliwyd digwyddiad dilynol wythnos yn ddiweddarach. Pecynnau cinio wedi'u hariannu gan SLSW i blant (cafodd 18 eu rhoi allan) yn yr Hwb Dechrau'n Deg gyda sefydliadau cynghori eraill yn bresennol am y diwrnod. Mae SLSW yn trefnu sioe ffordd "Cwrdd a Chyfarch" a fydd yn cynnwys pob un o'r 22 o bartneriaid Safonau Masnach awdurdodau lleol a sefydliadau cymorth. Canfu ymchwil SLSW fod pobl iau yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio benthyciwr arian heb drwydded ond eu bod yn llai tebygol o wybod bod hyn yn anghyfreithlon; Mae SLSW wedi comisiynu nifer o grwpiau ffocws ledled Cymru gyda'r nod o fesur pa wybodaeth/dealltwriaeth sydd gan bobl ifanc, a phenderfynu pa strategaeth ymgysylltu fyddai fwyaf llwyddiannus wrth eu rhybuddio am beryglon defnyddio benthycwyr heb drwydded. Mae SLSW wedi darparu hyfforddiant i oddeutu 250 o weithwyr rheng flaen ledled Cymru dros y chwe mis diwethaf. Mae hyn yn cynnwys seminar hyfforddi wedi'i thanysgrifio'n llawn a drefnwyd gan y Rhwydwaith Tywyswyr Arian.

Mentrau Cynllun Cyflenwi Cymru: adroddiad cynnydd (Haf 2024)

Menter	Deilliannau Allweddol	Partneriaid	Sylwebaeth
Cynorthwyo mynediad at gredyd fforddiadwy (NILS) Gweithio gyda Fair4All Finance ar gymryd Cynllun Benthyciadau Di-log ymlaen	1. Mae pobl na allant ddefnyddio benthyca prif ffrwd yn cael helpi ledaenu costau. 2. Efallai y byddwch yn osgoi benthycwyr arian anghyfreithlon.	Llywodraeth Cymru Fair4All Finance	Yn ystod y cyfnod adrodd mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer darparu NILS yng Nghymru. Mae benthyciad di-log o £500- £2,000 am hyd at 24 mis, a adeiladwyd ar gyfer ac a ddanfonir i bobl sydd fel arfer wedi'u heithrio o gynhyrchion ariannol fforddiadwy, yn parhau i fod ar waith. Mae'r ddarpariaeth wedi bod trwy Social Credit Cymru, FairforYou ac Salad Money. Mae cwsmeriaid wedi adrodd straeon llwyddiant sylweddol pan nad ydyn nhw wedi gallu cael mynediad at gredyd yn rhywle arall.
Gwneud y mwyaf o incwm a gwell arweiniad ariannol i gefnogi pobl i ddewis a rheoli credyd	1. Gwell siwrneiau cwsmeriaid ar gyfer gwneud y mwyaf o incwm. 2. Gwell arweiniad a chefnogaeth.	Llywodraeth Cymru, MaPS,	Cafodd Siarter Budd-daliadau Cymru ei chyd-ddylunio gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau lleol, a rhanddeiliaid y trydydd sector. Mae'r Siarter yn nodi'r ymrwymiadau sy'n angenrheidiol ar gyfer dylunio a darparu system fudd-daliadau tosturiol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n hygyrch i Gymru, lle nad oes ond angen i bobl adrodd eu stori mwy nac unwaith i dderbyn yr holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo. Mae grŵp llywio wedi'i sefydlu i ddatblygu rhaglen waith o'r holl weithgareddau y mae angen eu cwblhau i ddod ag ymrwymiadau'r Siarter yn fyw mewn ystyr ymarferol. https://www.moneyhelper.org.uk/cy/benefits/benefits-calculator Mae gwaith ac asesu effeithiolrwydd cyfrifiannell budd-daliadau newydd MaPS yn parhau, chwe mis ar ôl ei lansio. Gyda phedwar cwestiwn syml, mae'r cyfrifiannell wedi'i chynllunio i gyffeirio bobl at ddeall eu cymhwysedd posibl i gael budd-daliadau. Mae'n darparu taith haws i ddefnyddwyr ac yn cyfeirio pobl yn syth at y sefydliadau perthnasol lle gallant barhau â'u taith budd-daliadau. Mae gwaith trawsnewid canllawiau ariannol ar dudalen lanio a chynnwys canllaw craidd credyd wedi'i ddiweddaru wedi'i gwblhau gyda'r adran newydd a gyhoeddwyd ar 28 Medi. Mae hyn yn cynnwys tudalennau newydd ar fathau o gredyd, dewis credyd a hysbysu credydwyr o wendidau. Mae gwaith bellach wedi dechrau ar ganllawiau budd-daliadau wedi'u diweddaru o an y trawsnewid canllawiau ariannol.

Gwasanaeth Arian a Phensiynau | Money & Pensions Service
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Mentrau Cynllun Cyflenwi Cymru: adroddiad cynnydd (Haf 2024)

Menter	Deilliannau Allweddol	Partneriaid	Sylwebaeth
Canllawiau Arfer Gorau i Gredydwyr gyda chwsmeriaid sy'n byw gyda phroblemau iechyd meddwl Yn dilyn datblygu safonau credydwyr ar gyfer defnyddwyr â phroblemau iechyd meddwl, gwella ymgysylltiad a chefnogaeth y sector credydwyr i ddefnyddwyr agored i niwed.	1. Sicrhau bod arferion da ar gael i'r sector credydwyr a'u bod yn eu defnyddio.	MaPS gyda'r sector	Mae'r fenter bellach wedi'i chyflawni. Hyrwyddo parhaus a chodi ymwybyddiaeth drwy rwydweithiau partner ledled Cymru a'r DU. Bydd yn cael ei adolygu'n barhaus
Gweithio gyda chredydwyr biliau hanfodol i ganiatáu i bobl osgoi defnyddio credyd Helpu pobl sy'n agored i niwed yn ariannol i reoli eu hymrwymiadau drwy gymorth wedi'i dargedu gan gredydwyr biliau hanfodol.	1. Pwynt mynediad canolog i ddefnyddwyr mewn amgylchiadau agored i niwed i amrywiaeth o adnoddau cymorth a gynigir gan ddarparwyr gwasanaethau hanfodol.	Hyb Cymorth, credydwyr, cyrff rheoleiddiol, elusennau.	Disgwyl cytundeb gan bartner cyflenwi
Llyfnhau gwariant i osgoi defnyddio credyd ar gyfer costau hanfodol (Rentflex)	1. Gall defnyddwyr ffitio talu costau hanfodol gydag amrywiadau mewn incwm a gwariant ac osgoi defnyddio credyd.	CfRC, HACT, Cymdeithasau Tai, LGA	Mae'r treialon bellach wedi dod i ben, a bydd y Ganolfan Credyd Cyfrifol yn cyhoeddi'r gwerthusiad annibynnol ym mis Gorffennaf. Mae'r cynllun ar hyn o bryd wedi'i ohirio yn 'Southern Housing' tra'n disgwyl trafodaethau pellach yn yr hydref. Mae treialon wedi dod i ben yn llwyddiannus, mewn cyd-destun hynod heriol, ond mae rhai heriau i'w datrys o hyd os bwriedir cyflwyno'r cynllun yn ehangach.
Cymorth mynediad at gredyd fforddiadwy Helpu i dyfu'r sector cyllid cymunedol ehangach yng Nghymru	1. Cynyddu ymwybyddiaeth o'r farchnad a chynnyrch cyllid cymunedol. 2. Adolygu siwrneiau cwsmeriaid Helpwr Arian i greu canllawiau wedi'u teilwra a fydd yn gwella ymwybyddiaeth o gredyd fforddiadwy.	MaPS Fair4All Finance Sector benthyca cymunedol,	Mae'r rhaglen trawsnewid Canllawiau Ariannol wedi datblygu siwrnai defnyddwyr i gynnwys mwy o wybodaeth a chyfeirio at fathau o gredyd fforddiadwy. Mae ein hadran credyd wedi'i optimeiddio yn cynnwys canllawiau newydd ar fenthyciadau CDFI a chyfleusterau credyd Undeb Tollau ac mae ein teclyn 'Opsiynau Credyd' newydd https://www.moneyhelper.org.uk/cy/everyday-money/credit/options-for-borrowing-money yn tynnu sylw at argaeledd credyd fforddiadwy, gan gyfeirio defnyddwyr at gyfeiriaduron allanol er mwyn dod o hyd i ddarparwyr cyllid cyfrifol.
Gweithgareddau eraill ar draws y sector			Mae Undeb Credyd Casnewydd yn uno â Banc Cymunedol Smart Money Cymru i greu'r Banc Cymunedol mwyaf yng Nghymru gyda dros 15,000 o aelodau a rhwydwaith cangen sy'n ymestyn ledled De a Chanolbarth Cymru.

Mentrau Cynllun Cyflenwi Cymru: adroddiad cynnydd (Haf 2024)

Menter	Deilliannau Allweddol	Partneriaid	Sylwebaeth
Mae pobl yn hyderus eu bod yn cyrchu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor o ansawdd sicr (Llywodraeth Cymru)	1. Cynnal IAQF Cymru ar gyfer darparwyr gwybodaeth a chyngor lles cymdeithasol. 2. Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd, darparwyr a chyllidwyr IAQF Cymru. 3. Hyrwyddo a gwreiddio sicrwydd ansawdd o fewn y sector cynghori yng Nghymru.	Llywodraeth Cymru, Sector Cynghori	Mae'r fframwaith ansawdd cyngor gwybodaeth (IAQF Wales) yn parhau i geisio darparu dull cyson o sicrhau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad o safon i bobl Cymru. Mae safonau ansawdd cyngor allweddol sydd wedi'u perchenogi yn annibynnol (sy'n cwmpasu pob math o wybodaeth a chyngor) sy'n gweithredu yn y DU wedi gwneud cais am a derbyn statws Corff Achredu Cymeradwy IAQF. Mae'r rhain yn cynnwys: • y cynllun aelodaeth sy'n eiddo i Gyngor ar Bopeth • Y Safon Ansawdd Cyngor sy'n eiddo i'r Gynghrair Gwasanaethau Cynghori • Y Marc Ansawdd Arbenigol sy'n eiddo i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol • Lexcel yn eiddo i Gymdeithas y Gyfraith Cymru a Lloegr • Cynllun Sicrhau Ansawdd Cymorth i Ferched Cymru sy'n eiddo i Gymorth i Fenywod • Gwobr Ansawdd Teuluoedd yn Gyntaf sy'n eiddo i'r Gwasanaeth Asesu • mae'r Safon Elusen ddibynadwy sy'n eiddo i'r Cwmni Twf wedi'i thrwyddedu i ddarparu'r safon ar ran y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol. Mae'r contract i barhau â'r gwaith bositif i gefnogi'r IAQF mewn lle tan hydref 2025.
Y Gronfa Gynghori Sengl (Llywodraeth Cymru)	1. Parhau i ariannu Cyngor Ar Bopeth Cymru a'u partneriaid i gyflwyno'r Gronfa Gynghori Sengl. 2. Bydd Partneriaid Cyngor a Mynediad y Gronfa Gynghori Sengl yn darparu eu gwasanaethau drwy ystod o sianeli ymgysylltu (wyneb yn wyneb, dros y ffôn a'r we).	Llywodraeth Cymru, Cyngor Ar Bopeth Cymru, partneriaid SAF ehangach	Mae gwasanaethau Cronfa Cyngor Sengl Llywodraeth Cymru yn achubiaeth i bobl sy'n cael trafferth gyda chostau byw, gan eu helpu i wneud y mwyaf o'u hincwm. Ers i'r Gronfa Cynghori Sengl gael ei chyflwyno ym mis Ionawr 2020, mae gwasanaethau wedi helpu mwy na 280,000 o bobl i ddelio â dros 1.1 miliwn o broblemau lles cymdeithasol. Cefnogwyd y rhai a gynorthwywyd i hawlio incwm ychwanegol o £137 miliwn a cawsant eu dyledion gwerth cyfanswm o £38.5 miliwn eu dileu. Mae cyllid y Gwasanaethau Cynghori o £11m wedi'i ddiogelu yn 24/25. Ym mis Rhagfyr 2023, cymeradwyodd y cyn Weinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip y trefniadau ariannu grant cyfredol ar gyfer y Gronfa Cynghori Sengl am gyfnod pellach o 12 mis hyd at fis Mawrth 2025, er mwyn sicrhau sefydlogrwydd ar draws y sector a chaniatáu amser i benderfyniadau gael eu gwneud ar y cyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori yn y dyfodol.
Rhwydwaith Cyngor Rhanbarthol (Llywodraeth Cymru)	1. Mapio anghenion a darpariaeth cyngor ac adnabod bylchau. 2. Adeiladu rhwydweithiau atgyfeirio rhwng yr holl wasanaethau cynghori. 3. Cyfuno eu profiadau i nodi achosion sylfaenol problemau cyffredin.	Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyngor	**Mae swyddogion Llywodraeth Cymru** yn parhau i weithio gyda chwe Grŵp Llywio RAN, gan gefnogi datblygiad eu blaenoriaethau rhanbarthol priodol a chydlynu eu cyfarfodydd.

Mentrau Cynllun Cyflenwi Cymru: adroddiad cynnydd (Haf 2024)

Menter	Deilliannau Allweddol	Partneriaid	Sylwebaeth
Cefnogi gweithredu Lle i Anadlu, gan gynnwys Mecanwaith Mynediad Iechyd Meddwl	1. Sicrhau bod pobl gymwys yn ymwybodol o Fecanwaith Iechyd Meddwl Lle i Anadlu ac yn ymgysylltu â'r gweithwyr iechyd proffesiynol i gynyddu ymwybyddiaeth.	Llywodraeth Cymru, Cyngor Ar Bopeth Cymru, GIG Cymru gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl	Drwy'r Gronfa Cynghori Sengl, mae **Llywodraeth Cymru** yn parhau i gefnogi darpariaeth llwybr i'r amddiffyniadau Lle i Anadlu i bobl mewn argyfwng iechyd meddwl.
Ehangu partneriaid atgyfeirio cyngor ar ddyled	1. Gan adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o Gronfa Gynghori Sengl Llywodraeth Cymru, bydd MaPS yn darparu arweinyddiaeth ac yn cefnogi'r sector ar sut i wella darpariaeth cymorth i grwpiau agored i niwed a chymunedau amrywiol.	MaPS, Llywodraeth Cymru a'r sector cynghori	**Mae Advicelink Cymru** yn parhau i ddatblygu partneriaethau atgyfeirio. Yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024 gwnaed dros 3,907 o atgyfeiriadau. Mae rhai enghreifftiau o'r sefydliadau sy'n gwneud atgyfeiriadau yn cynnwys Care and Repair Cymru, Disability Wales, Plant Nyth Nest yng Nghymru, y Groes Goch Brydeinig. Cyfanswm yr atgyfeiriadau o fis Ionawr 2020 hyd at 31 Mawrth 2024 yw 18,541
Gweithgareddau eraill ar draws y sector	Cyfraniadau o bob rhan o'r sector sy'n helpu mwy o bobl yng Nghymru i gael gwell cyngor ar ddyled neu leihau angen.	Y sector yn ei gyfanrwydd	**Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF**: Darpariaeth Fframwaith Dynamig Adsefydlu Prawf – Cyllid, Budd-dal a Dyled (FDB) yng Nghymru. Mae Gwasanaeth Cymorth yr FDB yng Nghymru, a ddarperir gan St. Giles Wise, wedi helpu pobl ar y Prawf i reoli ac arbed dros £1.4 miliwn yn ei flwyddyn gyntaf. Cyllidodd **Llywodraeth Cymru** y Rhaglen Cynyddu Incwm: Codi Ymwybyddiaeth. Nod y rhaglen yw helpu gweithwyr rheng flaen i adeiladu eu gwybodaeth am systemau cymorth ariannol a'u dealltwriaeth o sut i helpu eu defnyddwyr gwasanaeth i gael incwm ychwanegol. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae dros 6,000 o weithwyr rheng flaen wedi mynychu sesiwn hyfforddi am ddim, gyda 70% yn cadarnhau eu bod wedi defnyddio eu gwybodaeth i helpu defnyddwyr eu gwasanaeth i gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt i hawlio incwm ychwanegol. **Cartrefi Cymunedol Cymru**: Mae'r sector Cymdeithasau Tai yng Nghymru wedi darparu gwasanaethau lles ariannol a chynyddu incwm i 7,401 o denantiaid rhwng Ionawr a Mawrth 2024. Yn yr un cyfnod, helpodd y gwasanaethau hyn denantiaid i gynyddu eu hincwm i gymaint â £6 miliwn.

Mentrau Cynllun Cyflenwi Cymru: adroddiad cynnydd (Haf 2024)

Menter	Deilliannau Allweddol	Partneriaid	Sylwebaeth
Datblygu hyb cynllunio ar gyfer ymddeol sy'n cynnwys dangosfwrdd pensiynau MaPS Gweledigaeth yr hyb cynllunio ar gyfer ymddeol yw cefnogi pobl gydag arweiniad personol ar bob cam o'u taith pensiwn.	1. Cynyddu cynllunio ar gyfer ymddeol mewn grwpiau defnyddwyr allweddol	Dim sefydliadau eraill ar y cam cychwynnol hwn	Fel rhan o ymrwymiadau Cynllun Corfforaethol MaPS 2024/25, rydym yn blaenoriaethu rhai teithiau i gwsmeriaid a fydd yn cynnwys dangosfwrdd pensiynau HelpwrArian. Bydd anghenion defnyddwyr ac ymchwil arall yn amlinellu hoffterau defnyddwyr ar gyfer y math o deithiau a fydd yn helpu eu dealltwriaeth o'u pensiynau a materion ariannol eraill.
Rhoi MOT ganol oes ar waith Offeryn i annog pobl i ymwneud â chynllunio ar gyfer yn ddiweddarach mewn bywyd drwy asesiad cyfannol o'u hiechyd, eu cyllid a'u sgiliau	1. Cyflwyno Canllaw Lles Ariannol Diweddarach mewn Bywyd. 2. Cynyddu cyrhaeddiad Canllaw Diweddarach mewn Bywyd.	Aviva, L&G, PHG, NCS, PHE, FIC, BCC	Lansiodd MaPS y MOT Arian Canol Oed ar wefan HelpwrArian ym mis Mehefin 2023. Mae MaPS yn defnyddio Adobe Analytics i fesur sut mae pobl yn defnyddio'r teclyn ac yn gwneud newidiadau bach i ddylunio a chopïo mewn ymateb i adborth. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i gynllunio ar gyfer datblygiadau a chyfathrebu pellach. Cyswllt: https://www.moneyhelper.org.uk/cy/everyday-money/midlife-mot
Cynhyrchu canllawiau lles ariannol cyfannol ar gyfer yn ddiweddarach mewn bywyd, gan gynnwys gwybodaeth benodol i fenywod a chymunedau ethnig amrywiol	1. Mapio anghenion a darpariaeth cyngor ac adnabod bylchau. 2. Adeiladu rhwydweithiau atgyfeirio rhwng yr holl wasanaethau cynghori. 3. Cyfuno eu profiadau i nodi achosion sylfaenol problemau cyffredin.	Age UK, Canolfan Heneiddio'n Well, y sector gwasanaethau ariannol	Cyfarfu Grŵp Cynghori Bywyd Hwyrach y MaPS am y tro olaf ym mis Mawrth 2024 i adolygu allbynnau a oedd yn cynnwys mapio holl anghenion defnyddwyr, cynnwys cyfarwyddyd diwygiedig ar ofal, dalgrynnu, ewyllysiau, pŵer atwrnai a rheoli arian i eraill. Mae cynnwys canllawiau newydd ym mhob maes a restrir uchod (ac eithrio dalgrynnu) wedi'i lansio ar HelpwrArian. Fel rhan o'n gwaith parhaus ar deithiau gan ddefnyddwyr, byddwn yn canolbwyntio ar fywyd diweddarach yn ystod y flwyddyn hon. Mae'r grŵp cynghori wedi sefyll i lawr ers cyrraedd nodau cyffredinol y grŵp. Cytunwyd y gellir ailymgynnull y grŵp ar sail ad-hoc os oes angen.
Gweithgareddau eraill ar draws y sector			Mae nodau Strategaeth Cymru sy'n Dda i Bobl Oed yn cyd-fynd â Chynllun Cyflawni Lles Ariannol Cymru, yn benodol 'gwella llesiant' a 'mynd i'r afael â thlodi sy'n gysylltiedig ag oedran'. Mae'r gweithgaredd yn cynnwys: • Ers mis Ionawr 2022, mae £42m wedi'i gyhoeddi i gefnogi **gofalwyr di-dâl**. • Trwy **Gronfa Cyngor Sengl Llywodraeth Cymru**, mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i gyrraedd pobl hŷn i godi eu hymwybyddiaeth o'u hawliau budd-dal lles. Mae pobl hŷn yn grŵp blaenoriaeth allweddol ar gyfer holl wasanaethau'r Gronfa Cynghori Sengl. Mae 38% o'r holl bobl sy'n cael mynediad at wasanaethau cyngor a chymorth yn bobl hŷn - yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae dros 15,000 o bobl 65+ oed wedi cael cymorth i hawlio incwm budd-dal lles.

Mentrau Cynllun Cyflenwi Cymru: adroddiad cynnydd (Haf 2024)

Menter	Deilliannau Allweddol	Partneriaid	Sylwebaeth
Datblygu a lansio hyb digidol ar gyfer cyflogwyr a phartneriaid Bydd yr hyb digidol yn galluogi cyflogwyr i wella eu dealltwriaeth o anghenion lles ariannol eu gweithlu.	1. Cynyddu ymgysylltu cyflogwyr a phartneriaid. 2. Cynyddu cyrhaeddiad mentrau MaPS	MaPS	Cwblhawyd cam Darganfod y prosiect ym mis Ebrill 2023. Fodd bynnag, roedd Cynllun Corfforaethol FY23/24 yn cynnwys dewisiadau anodd ar gyfer MaPS. Roedd yn ofynnol i MaPS ganolbwyntio ar gynyddu cyllid i feysydd allweddol ein gwasanaethau sy'n cynnig y cymorth mwyaf uniongyrchol i bobl sydd ei angen. O ganlyniad, mae cam nesaf yr hyb digidol i gyflogwyr wedi'i oedi.
Cefnogi menywod yn y gweithle Bydd hyb digidol yn cynnwys teithiau cwsmeriaid penodol yn cefnogi menywod yn y gweithle	1. Cynyddu cyrhaeddiad cefnogi menywod yn y gweithle		
Mae angen i bawb fod yn hyderus yn ddigidol (Llywodraeth Cymru)	1. Arfogi pobl â'r cymhelliant, y mynediad, y sgiliau a'r hyder i ymgysylltu â byd sy'n gynyddol ddigidol, yn seiliedig ar eu hanghenion	Llywodraeth Cymru, Y sector cyfan	Yn dilyn cyhoeddiad adroddiadau ymchwil ym mis Tachwedd 2023, mae Safon Byw Digidol Leiaf i Gymru (MDLS) yn parhau i fod yn faes polisi blaenoriaeth ar gyfer Cynhwysiant Digidol. Ym mis Ebrill 2024, gwahoddodd Llywodraeth Cymru geisiadau am arian cyfalaf ar gyfer cynllun peilot MDLS wedi'i anelu at breswylwyr tai cymdeithasol. Mae'r garfan hon wedi'i blaenoriaethu fel un o'r grwpiau uchaf o ddinasyddion sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yng Nghymru sy'n dangos fel 12% yn Arolwg Cenedlaethol diweddaraf Cymru, o'i gymharu â 7% ar gyfartaledd cenedlaethol. Yn dilyn ymarfer cystadleuol, dyfarnwyd cyllid grant i ddwy gymdeithas dai i ddarparu cynllun peilot MDLS naw mis sy'n dechrau ym mis Gorffennaf 2024. Bydd y peilot yn ymgymryd â mesur cychwynnol o MDLS, yn darparu ymyrraeth yn seiliedig ar anghenion penodol preswylwyr, er enghraifft – cymorth dyfais, band eang neu sgiliau digidol ac yna ailfesur yn erbyn MDLS i ddeall effaith y gefnogaeth a ddarperir. Bydd canlyniadau'r peilot yn gwerthuso'r manteision ehangach i'r preswylwyr a'r gymdeithas tai cymdeithasol e.e. cynhwysiant cymdeithasol, rheolaeth ariannol a'r gallu i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus digidol. O fis Ebrill 2024, mae rhaglen gaffael cynhwysiant digidol ac iechyd Llywodraeth Cymru, Cymunedau Digidol Cymru, wedi cyflwyno cynllun cyflawni diwygiedig yn seiliedig ar ddull thematig sy'n sicrhau perchnogaeth o gynhwysiant digidol i sefydliadau sy'n cefnogi dinasyddion sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Yr ardaloedd thematig yw pobl hŷn, tai cymdeithasol, cymunedau lleiafrifoedd ethnig (gan gynnwys Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr) ac iechyd (o safbwynt staff a phobl). Hyd yma, mae rhaglen DCW wedi cefnogi dros 163,000 o ddinasyddion gyda'r cymhelliant a'r sgiliau digidol sylfaenol sydd eu hangen i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel ac yn hyderus.

Mentrau Cynllun Cyflenwi Cymru: adroddiad cynnydd (Haf 2024)

Menter	Deilliannau Allweddol	Partneriaid	Sylwebaeth
Mynediad at Arian Parod (Llywodraeth Cymru)	1. Sicrhau bod dinasyddion yn gallu cael gafael ar eu harian yng Nghymru. 2. Cyflwyno'r banc cymunedol.	Llywodraeth Cymru, LINK MBS	**Cymdeithas Buidling Principality** Bellach mae gan Gangen Caerffili giosg OneBanx i helpu gyda mynediad at arian parod - mae hyn yn dilyn ymlaen o'r peilot blaenorol yng Nghangen y Bont-faen. Bydd cymdeithas adeiladu fwyaf Cymru yn hybu mynediad at ddarpariaeth arian parod yng Nghaerffili, ardal sydd wedi ei heffeithio gan gau banciau, gyda ciosg arian parod mewn partneriaeth â'r arloeswr bancio a rennir OneBanx.
Cronfa Cymorth Dewisol (DAF)			Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, mae 234,811 o unigolion wedi cael eu cefnogi gyda bron i £32 miliwn mewn grantiau. O'r rhain, roedd dros £17.8 miliwn yn daliadau arian parod, gan ddarparu cymorth i unigolion a theuluoedd sy'n agored i niwed yn ariannol gyda chostau byw sylfaenol fel bwyd a nwy/trydan.
Datblygu a gweithredu strategaeth Lles Ariannol a Systemau Iechyd Bydd MaPS yn cydweithio â gwasanaethau'r GIG yng Nghymru ac ar draws y DU i ddylunio, treialu a darparu cymorth lles ariannol drwy systemau iechyd	1. Datblygu Strategaeth FW a Systemau Iechyd. 2. Gwreiddio FW o fewn y system iechyd a gofal cymdeithasol.	MaPS, Llywodraeth Cymru, GIG Cymru	Mae MaPS wedi datblygu strategaeth iechyd a gofal cymdeithasol y cytunwyd arni gyda'r Bwrdd MaPS. Mae cydweithwyr MaPS yn parhau i gysylltu â thimau yn NASP, DHSC, NHS England, Llywodraeth yr Alban, Adran Iechyd Gogledd Iwerddon a GIG Cymru ar bwysigrwydd mynd i'r afael â lles ariannol ochr yn ochr â lles corfforol a meddyliol. Mae ymchwil flaenorol wedi dangos bod lles ariannol yn is ymhlith pobl ag anableddau neu gyflyrau iechyd hirdymor. Mae ymchwil MaPS wedi archwilio sut mae hyn yn amrywio ar gyfer pobl sydd â gwahanol fathau o anabledd neu gyflwr. https://maps.org.uk/cy/publications/research/2024/disabilities-long-term-illness-and-financial-wellbeing

Mentrau Cynllun Cyflenwi Cymru: adroddiad cynnydd (Haf 2024)

Menter	Deilliannau Allweddol	Partneriaid	Sylwebaeth
Gweithgarwch Partneriaeth Strategol gan MaPS yn cyfrannu at y cynllun cyffredinol	1. Bydd Rheolwr Partneriaeth MaPS Cymru yn gweithio gyda sefydliadau preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector i wreiddio lles ariannol ym mhrofiad gweithwyr, cleientiaid a chwsmeriaid.	MaPS, Llywodraeth Cymru, Cyflogwyr	Datblygwyd y pecyn cymorth lles ariannol hwn gan Rwydwaith Iechyd a Lles Staff GIG Cymru mewn partneriaeth â MaPS. Mae'n darparu arfer gorau i sefydliadau gefnogi eu gweithlu ym mhob peth sy'n ymwneud â lles ariannol. Wedi'i lansio ym mis Ebrill, gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ar y Porth Arweinyddiaeth. Dyma'r pecyn cymorth cyntaf ar gyfer 'Iechyd a Lles Staff – Canllaw Arfer Gorau ar gyfer GIG Cymru' ac mae ganddo'r potensial i gyrraedd 12.5% o boblogaeth Cymru sy'n gweithio. Mae'r canllaw ei hun yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn tynnu sylw at y ffactorau allweddol sy'n effeithio ar iechyd a lles staff, y meysydd i'w mesur i sicrhau dull sy'n cael ei yrru gan ddata, ac mae'n cynnwys adnoddau arfer gorau ac astudiaethau achos. Y bwriad yw bod yn adnodd ansawdd sy'n gwella ac yn esblygu'n barhaus ar gyfer GIG Cymru.
Arweinwyr Arian – datblygu sgiliau, rhannu dealltwriaeth, gwella bywydau Gwella ansawdd y canllawiau ariannol, drwy uwchsgilio sefydliadau ac unigolion sy'n ei ddarparu i'w defnyddwyr gwasanaeth.	1. Cynyddu dealltwriaeth cymhwysedd. 2. Iaith a rennir ar gyfer sefydliadau ac ymarferwyr 3. Cynyddu ymgysylltu ymarferwyr 4. Cynyddu dealltwriaeth o safle o fewn y sector	MaPS, Sector arweiniad ariannol, Sector cynghori, etc.	Bellach, mae gan y Rhaglen Tywyswyr Arian yng Nghymru Rhwydweithiau: • Aelodau Rhwydwaith 2016 • Cynhaliwyd 105 o ddigwyddiadau gyda 2311 yn mynychu Mae'r fforymau lles ariannol rhanbarthol yn parhau i ddod ag ymarferwyr at ei gilydd yn rhithiol (ac yn bersonol) ar lefel leol. E-ddysgu Mae 60 o sefydliadau wedi'u partneru â'r rhaglen gyda 1252 o ymarferwyr wedi'u cofrestru ar gyfer dysgu, mae 616 o bobl wedi cwblhau'r lefel sylfaen, y mae 516 ohonynt wedi ennill Cymwysterau Sylfaen City & Guilds.

Mentrau Cynllun Cyflenwi Cymru: adroddiad cynnydd (Haf 2024)

Menter	Deilliannau Allweddol	Partneriaid	Sylwebaeth
Gweithgareddau eraill ar draws y sector			Treth Cyngor Tecach – Cam 2. Mae'r ddolen hon yn rhoi trosolwg o'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Dreth Cyngor Decach: cam 2 a gynhaliwyd rhwng 14 Tachwedd 2023 a 6 Chwefror 2024. Roedd yr ymgynghoriad yn ymdrin â phedwar prif bwnc: dulliau gwahanol o ddylunio bandiau treth gyngor newydd; diweddariadau rheolaidd i'r dreth gyngor yn y dyfodol; gostyngiadau ac eithriadau; system fwy tryloyw a phroses apelio fwy effeithiol. Ymgynghoriad Cam 2 - Treth Gyngor Tecach - Crynodeb o'r Ymatebion (llyw.cymru) Cymdeithas Adeiladu'r Principality - Bydd Cronfa Cenedlaethau'r Dyfodol (gyda Sefydliad Cymunedol Cymru) FG4 yn lansio ym mis Awst 2024 ac yn darparu grantiau i elusennau/grwpiau cymunedol. Hyd yn hyn mae 97 o elusennau/grwpiau wedi derbyn cyllid (cyfanswm o dros £1m). Mwy o wybodaeth yng Nghymdeithas Adeiladu'r Principality yn rhagori ar £1 miliwn mewn cyllid i elusennau drwy Gronfa Cenedlaethau'r Dyfodol Ym mis Mai **cyhoeddodd Cymdeithas Yswirwyr Prydain (ABI)** Strategaeth Cynhwysiant Ariannol sydd â thair thema ar gyfer gweithredu: Gwella fforddiadwyedd yswiriant modur, effaith salwch ar ddiogelwch ariannol, a llenwi'r bwlch cyngor ar gyfer pensiynau ac incwm ymddeol. Cyhoeddwyd hefyd gan ABI ym mis Chwefror y map ffordd i fynd i'r afael â chostau yswiriant i fodurwyr gyda chynllun 10 pwynt o gamau y gall yswirwyr, rheoleiddwyr a llywodraethau eu cymryd. Maent hefyd yn nodi eu Hegwyddorion Cyllid Premiwm i helpu i reoli'r gost o dalu'n fisol am yswiriant modur. Mae ABI wedi cyhoeddi ymchwil i godi ymwybyddiaeth o dwyll yswiriant sy'n dangos nad yw 81% o bobl sy'n cyfaddef eu bod yn ymwybodol o dwyll yswiriant erioed wedi clywed am 'spoofing', mae twyllwyr tactegol allweddol yn eu defnyddio i dwyllo rhywun sydd wedi bod mewn damwain traffig ffordd i ddefnyddio gwefan ddiegwyddor, pan fyddant yn credu eu bod yn delio â'u hyswiriwr. Cyhoeddodd ABI ganllaw newydd hefyd i wella'r gefnogaeth i gwsmeriaid awtistig

Gwasanaeth Arian a Phensiynau | Money & Pensions Service

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

maps.org.uk